Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

**Cyfres newydd, rhif 63** **Gwanwyn 2023**



*'Gwnaeth bopeth yn hyfryd yn ei amser'*

## ‘Moliannwn oll yn llon ...’

Yn nyddiau’r hirlwm daw’r lili wen fach i wthio’i phen drwy’r oerfel i gyhoeddi’n ostyngedig bod gafael y gaeaf eisoes yn cilio o’r tir.

A phwy ohonom na roddem ddiolch bod y ‘gwanwyn wedi dod, y gaeaf a’r oerni a aeth heibio’. Os oedd Bob Tai’r Felin yn llawenhau wrth feddwl,

> Daw’r coed i wisgo’u dail a mwyniant mwyn yr haul
> A’r ŵyn ar y dolydd i brancio,

bydd gan bob un ohonom, mae’n siŵr, arwyddion y chwiliwn amdanynt yn flynyddol sy’n nodi bod y gwanwyn wedi cyrraedd.

I lawer ohonom, yr arwydd bod y gaeaf wedi cilio, bod y gwanwyn ar gerdded yn y tir, a bod dyddiau ‘mwyniant mwyn yr haul’ gerllaw yw cael gweld tonnau ar donnau o glychau’r gog yn torri ar draethell ein synhwyrau.

Os ewch ar daith y gwanwyn hwn a pharcio gerllaw pont Llandeilo, a dilyn y llwybr drwy fynwent hen eglwys Llandyfeisant, drwy’r goedwig, hyd at gastell Dinefwr, fe gaech eich trochi mewn cefnfor glas o glychau’r gog.

I’m meddwl i, ymddangosant fel côr ysblennydd yn eu gwisgoedd corawl gwyrdd a glas, yn aros eu tro i ymuno yng nghorws mawreddog oratorio ddechrau’r haf. Yng nghadeirlan y gwanwyn fe’u gwelwn yn cadw curiad i ryw gân na fedrwn ei chlywed, a symudant eu pennau o dan gyfarwyddyd arweinydd anhysbys ac anweledig yr awel sy’n chwythu lle y mynno.

Ym mrigau’r gwŷdd uwchben bydd seiniau’r dryw bach, y fronfraith a’r deryn du yn ein synnu gan ddisgleirdeb y dôn; unawdwyr gogoneddus ydynt a seiniant drachefn a thrachefn hen gân eu hil, a chaneuon oesol mawl y goedwig.

A gwyddom, hyd yn oed pe medrem glywed cân y côr mud, y byddai’r ffiwg soniarus y tu hwnt i’n gallu i ymuno yn ei seiniau gogoneddus. Os ewch i’r goedwig y gwanwyn hwn (hyd yn oed os nad ewch cyn belled â chastell Dinefwr!), oedwch i glustfeinio ar gân fud clychau’r gog!

Prydferthwch 'Clychau'r Gog' a reibiodd synhwyrau R. Williams Parry pan ganodd,

> Dyfod pan ddêl y gwcw,
> Myned pan êl y maent,
> Y gwyllt atgofus bersawr,
> Yr hen lesmeiriol baent.
> Cyrraedd, ac yna ffarwelio,
> Ffarwelio. Och! na pharhaent.

Er hardded yr olygfa, daw eu tymor i ben, meddai, a bydd yn rhaid 'ffarwelio' wrth i dymor arall ein goddiweddyd. Parhânt yn 'hen lesmeiriol baent' ein cof i gyffroi'r 'gwyllt atgofus bersawr' y flwyddyn nesaf eto. Fe'n gadewir i ddyheu 'Och! na pharhaent.'

Yn nyfnder ein calonnau mynegir yr 'Och! na pharhaent' uwchlaw cymaint o'n profiadau. Gwyddom na ddwg hiraeth am a fu fwrlwm a gobaith, na chyffro ein plentyndod na'n hieuenctid, yn ôl i ni. Y mae awr i bob ryw bwrpas dan y nefoedd. Dros dro mae ein holl brofiadau, boed drist, boed lon. Ond erys yr hiraeth am yr hyn nad yw dros dro, am yr hyn sy'n dragwyddol ogoneddus ei barhad ynom.

Yn nechrau'r gwanwyn a'r haf eleni dysgwn o'r newydd, yn ôl cyfarwyddyd Gair Duw, y 'Gwnaeth [Duw] bopeth yn hyfryd yn ei amser'. Am hynny, ein llawenydd a'n braint yw medru cydnabod yn ddiolchgar ei ddaioni tuag atom, hyd yn oed yn y profiadau byrhoedlog y dyhëwn 'Och! Na pharhaent' amdanynt.

Oddi wrth Dduw ei hun hefyd y daw'r hiraeth am bethau na ddarfyddant, am lawenydd na ddiffoddir byth, ac ef 'hefyd roddodd dragwyddoldeb yng nghalonnau pobl'. Fe'n crëwyd gan Dduw yn fodau na fedr pethau bob dydd eu bodloni am yn hir. Y mae gwagle ynom na all dim, heblaw am ddaioni tragwyddol daionus yr Arglwydd, ei lenwi (Llyfr y Pregethwr 3:1–15).

Anniddig fyddwn heb gydnabod rhoddwr y pethau sydd dros dro nac adnabod yr hwn a greodd yr anniddigrwydd tragwyddol ynom. Erys hyd nes y cawn ein bodloni ynddo Ef.

*Watcyn James*

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

| | |
|---|---|
| 7 Ebrill | Dydd Gwener y Groglith – oedfa'r ofalaeth<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>yng Nghapel Seion am 10 o'r gloch |
| 9 Ebrill | Sul y Pasg – oedfa gymun yr ofalaeth<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch |
| 18 Ebrill | Sesiwn Wybodaeth Ffrindiau Dementia<br>gyda Sarah Morris<br>Capel y Garn am 7 o'r gloch |
| 24 Ebrill | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>yn Festri'r Garn am 7.30 o'r gloch |
| 7 Mai | Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion<br>Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth<br>Cyfarfod y Plant am 10 o'r gloch<br>Cymanfa'r Hwyr am 5.30 o'r gloch |
| 18 Mai | Sasiwn Genhadol y De<br>Capel y Morfa, Aberystwyth<br>Cyfarfod y prynhawn am 2 o'r gloch<br>Siaradwraig: Mererid Mair<br>Cyfarfod yr hwyr am 5 o'r gloch<br>Siaradwr: Arfon Jones |

Gweler hefyd: www.capelygarn.org
Tudalen Facebook: Capel y Garn
Sianel YouTube: Capel y Garn
Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

## Tudalen y Plant

Ydych chi'n hoffi bwyta siocled? Os ydych chi, mae'n siŵr eich bod yn hoffi gwyliau'r Pasg.

Adeg y Pasg, mae llawer iawn o siocled i'w weld yn y siopau – wyau Pasg o bob lliw a llun.

Mae'r Pasg yn ŵyl hapus iawn pan ydyn ni'n dathlu bod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw.

Mae wyau Pasg yn symbol o fywyd newydd.

Yn y gwanwyn, mae bywyd newydd i'w weld o'n cwmpas – blodau lliwgar yn yr ardd ac ŵyn bach yn prancio yn y cae.




### Gweddi

Diolch, Dduw, am liwiau'r gwanwyn.
Diolch am weld bywyd newydd ym myd natur.
A diolch hefyd am stori hapus y Pasg. Amen.



## Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion

**Dydd Sul, 7 Mai 2023**

**yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth**

**Cyfarfod y plant am 10 o'r gloch –**
**arweinydd: Efan Williams**

**Cyfarfod yr hwyr am 5.30 o'r gloch**
**arweinydd: Dr Rhidian Griffiths**

Cynhelir yr ymarferion ar nos Fercher am 7 o'r gloch

5 Ebrill – Capel Seion (Stryd y Popty)

12 Ebrill – Capel Bethel (Stryd y Popty)

26 Ebrill – Capel y Morfa

3 Mai – Capel Seion (Stryd y Popty)

*Croeso cynnes i bawb – dewch i gefnogi*

## Llongyfarchiadau calonnog iawn i'r Parchedig Athro John Tudno Williams ar ddathlu trigain mlynedd yn y weinidogaeth. Diolch iddo am rannu rhai atgofion am y degawd cyntaf.



Eleni byddaf yn dathlu'r ffaith imi fod yn weinidog yn y Corff ers trigain mlynedd. Deuthum i'r Borth ym mis Gorffennaf 1963 wedi imi ddebyn galwad gan y tair eglwys: Soar a Libanus, y Borth, a'r Babell, Dôl-y-bont. Roedd pump ohonom yn weinidogion yn Nosbarth y Garn a Phen-llwyn y pryd hynny: y Parchn D. R. Pritchard (Y Garn a Chwmerfin), Thomas Roberts (Nasareth, Rehoboth a'r Graig, Eglwys-fach), Dr Eifion Evans (Pen-llwyn, Dyffryn ac Aberffrwd), a D. J. Evans, Llanbadarn (Capel Seion, Pisga a Madog). Ymhen chwe blynedd ychwanegwyd Nasareth a Rehoboth at fy ngofalaeth wedi i'r Parch. Griffith Jones symud o Dal-y-bont i ofalu am Ben-llwyn, Dyffryn, Aber-ffrwd, Seion a Pisga.

Yn Sasiwn y Gogledd y cefais fy ordeinio ym mis Tachwedd y flwyddyn honno, wedi i'r chwech ohonom a oedd i'w hordeinio gael ein holi mewn cyfarfod cynharach o'r Sasiwn ym mis Medi yn Llansannan. Dim ond dau ohonom sy'n dal yn fyw, hyd y gwn i: y llall yw'r Parch. R. E. Hughes o Sir Fôn, a ymunodd â Henaduriaeth Gogledd Aberteifi yr un amser â mi wedi iddo dderbyn galwad oddi wrth eglwysi Blaen-plwyf, Elim a Tabor.

Efallai eich bod yn synnu mai yn y Gogledd y bu'r ordeinio yn fy hanes i, a minnau wedi fy nghodi yn Henaduriaeth Llundain: yr eglurhad am hynny yw bod yr Henaduriaeth honno ar y pryd yn danfon cynrychiolwyr i Sasiynau'r De a'r Gogledd. A gan fod fy rhieni yn hanu o'r Gogledd, roedd yn naturiol imi ddewis cael fy ordeinio yno, er na fûm i erioed wedyn yn gweinidogaethu yno.

Yng Nghapel Salem, Pwllheli, y cynhaliwyd y gwasanaeth ordeinio, ac roedd yn digwydd bod gennyf gysylltiadau teuluol â'r adeilad gan mai yno y priododd fy rhieni ac yno yr oedd cefnder imi'n flaenor. Ac i danlnellu'r cysylltiadau teuluol, ewythr imi, Syr David Hughes Parry, oedd Llywydd y Sasiwn ar y pryd ac ef a lywiodd y gwasanaeth ordeinio. Dylwn ychwanegu fod fy nhaid a 'nhad hefyd wedi'u hordeinio yn y Gogledd.

Cyrhaeddais Gerlan, y Mans yn y Borth, yn fy fan Ford felen, a hynny wedi taith drafferthus o Lundain gan imi ddioddef pynctiar ar yr A44 yn Swydd Henffordd a gorfod dadlwytho'r fan er mwyn cael gafael ar yr olwyn sbâr i'w newid. Roedd fy mam wedi dod yn gwmni imi am ryw fis i'm helpu i ymsefydlu ac i roi ychydig o hyfforddiant imi yng ngwyddor gwaith tŷ. Wedi iddi hi ymadael, nid oedd angen imi drafferthu ryw lawer ynglŷn â pharatoi prydau bwyd gan fod aelodau'r ofalaeth yn 'sbwylio' y gweinidog bach ifanc drwy eu mynych wahoddiadau i'w cartrefi, a hynny nid yn unig pan fyddent yn 'cadw'r mis' ar y Sul. Wrth gwrs, daeth gwell trefn ar fy mywyd wedi i Ina ymuno â mi yn y Mans ar ôl inni briodi ddeunaw mis yn ddiweddarach ddiwedd Hydref 1964.

Yn 1967 fe'm gwahoddwyd i ddarlithio'n rhan-amser ym maes yr Hen Destament yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth. Golygai hynny fy mod i ddarlithio ar ddau fore yn yr wythnos. Wedi imi ymgymryd â gofalu am ddwy eglwys ychwanegol, hwnnw y cyfnod prysuraf yn fy holl weinidogaeth. Yn y cyfnod hwn hefyd y ganwyd ein dau blentyn. Roedd yn amser heriol, ond cawsom ein dau lawer o bleser ymysg yr aelodau o bob oed.



Tîm Buddugol Cwis Llyfrau 1965: gyda John Tudno ac Ina gwelir Billy Evans, Caernarfon yn awr; Robert Williams, Penywern; Ritchie Jenkins, Penrhyn-coch a Shan Davies, Hopewell, Borth, gynt

Cafwyd llwyddiant yng nghystadlaethau Cwis Llyfrau Cymraeg y Sir yn 1965 pan enillodd tim y Borth y wobr gyntaf i dimau ieuenctid, a pharhawyd i baratoi timau o rai hŷn mewn blynyddoedd eraill gan gynnwys ynddynt aelodau o eglwysi eraill y dosbarth. Caf foddhad bob amser wrth gyfarfod â phobl o'r cyfnod hwn y bûm yn ymwneud â hwy a'u teuluoedd ar adegau arwyddocaol yn eu bywydau ac sy'n hoffi rhannu atgofion am y cyfnod bendithiol hwn yn ein hanes.

Digwyddiad o bwys ar ddiwedd fy nghyfnod yn y Borth oedd y penderfyniad i uno'r ddau gapel yn y pentref, ac yn sgil dyfarniad adeiladydd annibynnol penderfynwyd cadw adeilad Libanus a'i ailenwi'n Gerlan a gwerthu Soar i'r Pabyddion – ac mae hwnnw ysywaeth bellach hefyd wedi ei gau. Daeth y cyfnod hwn i ben pan apwyntiwyd fi'n athro llawn-amser yn y Coleg Diwinyddol a symudodd y pedwar ohonom ym Medi 1973 i'n cartref newydd yn Aberystwyth.

Dim ond am ddeng mlynedd cyntaf, onid prysuraf, fy ngweinidogaeth y soniais y tro hwn. Efallai, y daw cyfle eto imi adrodd ychydig am yr hanner canmlynedd sy'n weddill o'm gweinidogaeth hyd yn hyn.

[Edrychwn ymlaen at ddarllen rhagor o atgofion difyr yn y rhifynnau nesaf - Gol.]




Wynne Melville Jones, tywysydd Parêd Gŵyl Ddewi Aberystwyth, yn cyflwyno'i anerchiad ysbrydoledig a heriol yn Llys y Brenin – a Linda'n ei gefnogi yn y cefndir

Cydymdeimlwn yn ddwys:

â Nans Morgan yn ei phrofedigaeth o golli dwy chwaer, Gwenda a Liusa, yn ddiweddar;

â theulu a chyfeillion y ddiweddar Meinir Lowry, a fu farw ar 30 Ionawr.

Llongyfarchiadau calonnog:

i Wynne Melville Jones ar gael ei ddewis yn dywysydd Parêd Gŵyl Ddewi Aberystwyth am ei gyfraniad yn hybu'r Gymraeg yn yr ardal;

i Nans Morgan ar ddod yn hen fam-gu i Hedd;

i Bethan Jones ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ddechrau Mawrth;

i'r Parch. Nerys Ann Brown ar gael ei sefydlu'n ganon yn Eglwys Esgobol yr Alban;

i Gwyneth Keyworth am ennill gwobr yr actores gefnogol orau am ei pherfformiad yn *To Kill a Mocking Bird*.

## Capel y Garn

## Ebrill

## Blaenor y mis: Alan Wynne Jones

| | |
|---|---|
| 2 | Oedfa'r bore dan arweiniad y Parch Richard Lewis<br>yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch |
| 5 | Cymdeithas Chwiorydd y Garn<br>Paned a sgwrs yn y festri am 2 o'r gloch |
| 7 | *Dydd Gwener y Groglith*<br>Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>yng Nghapel Seion am 10 o'r gloch |
| 9 | *Sul y Pasg*<br>Oedfa gymun yr ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch |
| 16 | Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch |
| 18 | Sesiwn Wybodaeth Ffrindiau Dementia<br>gyda Sarah Morris am 7 o'r gloch |
| 23 | Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch |
| 25 | Cyfarfod Swyddogion y Garn<br>Festri'r Garn am 10.30 o'r gloch |
| 30 | Oedfa dan arweiniad y Parch Judith Morris<br>am 10 o'r gloch |

### Sesiwn Wybodaeth Ffrindiau Dementia

**Menter gan Gymdeithas Alzheimer yw Ffrindiau Dementia. Mae'r sesiwn wybodaeth yn rhoi cyfle i bobl i ddeall am dementia a dysgu am y pethau bychain y medrwn eu gwneud i greu gwahaniaeth. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno yn y sesiwn. Mae'r sesiwn yn para tua awr.**

## Capel Seion

Fore Sul, 19 Chwefror, yn yr oedfa gwnaethpwyd casgliad arbennig yn ymateb i apêl Cymorth Cristnogol tuag at drueiniaid daeargrynfeydd Twrci a Syria. 'Gwnewch gasgliad oedfa Sul' oedd enw swyddogol yr apêl.

Brynhawn Sul, 5 Mawrth, cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi'r Byd yng nghwmni'r Bugail a Lowri, a gwragedd a brodyr yn y gynulleidfa. Paratowyd y gwasanaeth gan chwiorydd Cristnogol Taiwan am y tro cyntaf, a'r thema oedd 'Clywais am eich ffydd' (Effesiaid 1). Cymerwyd at y rhannau amrywiol gan yr aelodau a ffrindiau'r eglwys. Braf fu gallu croesawu i'r oedfa y chwiorydd Helen, Hawys a Nia, sef merched y ddiweddar aelod Mrs Ann Jones, Wernheli (Wernddu gynt), y cynhaliwyd ei hangladd yma'r dydd Mawrth cynt. Estynnwyd gair o gydymdeimlad i'r teulu gan y Parchedig Watcyn James a diolchwyd am gonsýrn Ann dros y blynyddoedd yn yr oedfa hon a'i pharodrwydd i gymryd rhan yn flynyddol.

Olwen Jones oedd yn arwain yr oedfa ac Eirlys Williams oedd wrth yr organ ac yn gyfrifol am yr arddangosfa chwaethus. Mwynhawyd te prynhawn blasus gyda ryseitiau o Taiwan a chymdeithasu bywiog. Diolch unwaith eto eleni am y fraint o gael bod yn rhan o'r dathliad byd-eang hwn. Cawsom ein bendithio'n helaeth mewn emyn, darlleniadau a gweddïau, ac o ddysgu tipyn am yr ynys. Yng nghefn y llyfryn cynhwyswyd cyfarchion gan Carys Humphreys o Borthmadog a Choleg y Bala sy'n gwasanaethu yno fel cenhades ers nifer o flynyddoedd. Mae'n debyg fod llawer ohonom yn cofio'r Parchedig John Tudor, ei briod, Nerys, a'r plant yno cyn hyn. Dywedodd Watcyn fod Andras wedi treulio rhai misoedd yno'n gwasanaethu. Yng ngeiriau Carys a'r emyn: 'Clyma ni'n un, o Dduw / â chwlwm na ellir ei ddatod' y daw'r byd at ei gilydd drwy'r Dydd Gweddi hwn.



## Capel y Garn

## Mai

## Blaenor y mis: Marian Beech Hughes

7 Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
Capel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth
Cyfarfod y plant am 10 o'r gloch
Cyfarfod yr hwyr am 5.30 o'r gloch

14 Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog
yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch

21 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

28 *Sul y Pentecost*
Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

## Mehefin

## Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

4 Oedfa dan arweiniad y Parch Richard Lewis
yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch

11 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

18 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch

25 Oedfa dan arweiniad yr Athro John Tudno Williams
am 10 o'r gloch

# Cymdeithas Chwiorydd y Garn



Uchod: Mwynhau paned a pharatoi stampiau i'w hanfon at Gymdeithas y Deillion (RNIB), 1 Chwefror

Isod: Cyflwyno siec a nwyddau i Fanc Bwyd Stordy'r Jiwbilî drwy law Rhidian Griffiths, 19 Chwefror





Rhai o aelodau o'r Garn a Chapel Noddfa a gymerodd ran yng ngwasanaeth cydenwadol Dydd Gweddi'r Dydd fore Sul, 5 Mawrth. Thema'r gwasanaeth, a luniwyd eleni gan Chwiorydd Taiwan, oedd 'Clywais am eich ffydd'. Cyflwynwyd y myfyrdod gan y Parch Wyn Rhys Morris.

Yn dilyn y gwasanaeth, braf oedd cael cymdeithasu yn y festri dros baned, wedi'i pharatoi gan Nans a Mair – a oedd hefyd wedi cymryd rhan yn y gwasanaeth.



# Cymdeithas Lenyddol y Garn

Mae tymor y Gymdeithas yn parhau, gydag arlwy amrywiol o gyfarfodydd. Nos Wener, 16 Rhagfyr, Aled Myrddin a'r teulu oedd yr artistiaid gwadd, ac fe gafwyd noson arbennig ganddyn nhw – yn garolau newydd sbon, yn ogystal â rhai o'n carolau cyfarwydd, gyda phob aelod o'r teulu'n cyfrannu ar ffurf unawdau, deuawd a pharti. Roedd y cwis hwyliog ac amrywiol yn llwyddiant mawr – gyda'r ddau dîm yn gyfartal ar y diwedd. Cafwyd cyfle hefyd i glywed gwir neges y Nadolig yn cael ei chyflwyno mewn ffordd ddidwyll gan Aled.



'Gafel yn y Tir' oedd pennawd cyfarfod mis Ionawr, a chafwyd noson ddifyr eithriadol yng nghwmni Lowri Jones, Pennaeth Datblygu a Phrosiectau Cwmni Golwg. Fe'i hadnabyddir fel Lowri'r Fron gan lawer, ac mae'r ffaith honno'n adlewyrchu mai person ei milltir sgwâr yw Lowri. Roedd ei chlywed yn annerch yn amlygu ei dawn i ysbrydoli ac i ysgogi gweithgareddau lleol.

Daliwyd sylw'r gynulleidfa'n syth gan gasgliad o 'brops', yn cynnwys gwydr peint gwag yn y sêt fawr! Fe arweiniodd hwnnw yn syth at brif destun y noson, sef menter gydweithredol prynu Tafarn Dyffryn Aeron – Tafarn y Vale. Yn hwyliog iawn, eglurodd Lowri oblygiadau prynu a rhedeg Tafarn y Vale yn adnodd i'r gymuned. Y nod yw sicrhau bod y Vale yn aros yn galon y gymuned, yn lle i bobl o bob oed ddod i gymdeithasu, ac i fudiadau lleol gynnal digwyddiadau.

Cyn ateb cwestiynau, fel cyn-gydlynydd Prosiect Bro 360, cyfeiriodd Lowri at y Rhwydweithiau Bro, ac at fwrlwm rhannu gwybodaeth, storïau a manylion am ddigwyddiadau lleol yn ddigidol. Rhannodd yr hyn a alwodd yn 'Wcw i oedolion'! Llyfryn *Bro Ni* oedd hwn, yn orlawn o syniadau am weithgareddau creadigol 'i bobol sy'n falch o'u Bro'.




Nic Parry'n diddori'r gynulleidfa luosog â'i straeon difyr

Cafwyd noson i'w chofio yn y Gymdeithas nos Wener, 17 Chwefror, yng nghwmni'r Barnwr a'r sylwebydd pêl-droed Nic Parry.

Camodd i'r bwlch ar fyr rybudd i rannu ei atgofion am ei gyfnod yn y brifysgol yn Aberystwyth – blynyddoedd hapusaf ei fywyd, meddai, lle'r heuwyd yr hadau a arweiniodd at ei yrfa amrywiol ym myd y gyfraith a'r cyfryngau.

Datblygodd o fod yn 'gyfreithiwr cefn gwlad' yn delio â mân achosion i fod yn farnwr yn Llys y Goron. Clywyd am sawl tro trwstan a doniol ar y ffordd, yn ogystal â sylwebaeth ddwys ar effeithiau andwyol tlodi, diweithdra ac afiechyd meddwl ar deuluoedd y dyddiau hyn.

Ochr yn ochr â'i yrfa fel Barnwr, arweiniodd ei ffraethineb a'i ddawn dweud ddiamheuol at waith sylwebu ar amrywiol gampau, o'r gyfres *Reslo* ar S4C i gêmau pêl-droed rhyngwladol – a'i 'one-liners' bachog sy'n taro cefn y rhwyd ar bob achlysur!

Cyflwynwyd y siaradwr gan Llio James, Cadeirydd y Gymdeithas, a rhoddwyd gair o ddiolch gan y Parch Wyn Morris. Liz Lloyd Jones a Bet Evans oedd yn gyfrifol am baratoi'r baned arferol.

Noson arbennig iawn – a'r gynulleidfa niferus wrth ei bodd!

## Ieuenctid Capel Pen-llwyn



Cymdeithasu yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor,
yn dilyn gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd



# Capel Pen-llwyn

## Sul y Teulu

Braf oedd gweld y festri yn rhwydd lawn ar 15 Ionawr pan gynhaliwyd Sul y Teulu dan ofal ein Gweinidog.

Bu'r ieuenctid yn cymryd at wahanol rannau yn ystod y gwasanaeth. Hefyd, cafwyd fideo ar hanes Sacheus, yn ogystal â phosau ac adran o gyfrifiadur gwallus.

Diolchwyd i'r Dr Watcyn James am baratoi'r cyfan a sicrhau gwasanaeth diddorol, addysgiadol o'r Beibl a bendithiol ar ein cyfer.

## Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd

Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor, bnawn Gwener, 3 Mawrth. Bu aelodau'r Eglwys a hefyd aelodau Capel Pen-llwyn yn cymryd rhan, a chafwyd araith bwrpasol a diddorol gan Mrs Delyth Morris Jones, Ponterwyd. Mrs Catrin Evans oedd yn cyfeilio.

Merched Cristnogol Taiwan fu'n cynllunio'r gwasanaeth eleni. Gwlad yw hon sydd wedi ei dal ers blynyddoedd mewn brwydr am oruchafiaeth. Mae'n wlad sydd wedi ei hynysu ers degawdau, ac ym mis Ebrill 2022 dim ond 13 o'r 193 o wledydd sy'n perthyn i'r Cenhedloedd Unedig a Dinas y Fatican oedd yn cydnabod Taiwan fel gwlad sofran.

Fe gynnwys y gwasanaeth lythyrau o anogaeth i ferched sy'n wynebu dioddefaint ac anghyfiawnder. Ond am fod ganddynt ffydd gadarn a'u profiad o weddi, gweithredant er budd yr Efengyl, a gwelwn sut mae'r ffydd yma'n dod â heddwch a gweledigaeth newydd i'r wlad.

Diolchwyd i bob un a gymerodd ran ac i Delyth a Catrin, heb anghofio aelodau'r Eglwys am y wledd a gafwyd ar y diwedd wrth gymdeithasu.

Rydym yn diolch i ferched Taiwan am y gwasanaeth, a gweddïwn y bydd ein hymateb ninnau yn gadarnhaol wrth inni ymrwymo i weithredu drwy weddi.

## Canmlwyddiant Apêl Heddwch Merched Cymru

Gan mlynedd yn ôl, aeth grŵp o ferched Cymru, wedi'u sbarduno gan effaith erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf, ati'n ddygn i gasglu enwau gwragedd ar ddeiseb heddwch gyda'r nod o gyfrannu at roi diwedd ar bob rhyfela. Yn ystod 1923–4, teithiodd Annie Hughes Griffiths, Cadeirydd Cynghrair y Cenhedloedd, a'i chyd-ymgyrchwyr ledled Cymru yn casglu enwau cyn mynd draw i America ar daith heddwch o ddau fis yn casglu cefnogaeth ehangach ac i gyflwyno'r ddeiseb. Llofnododd y nifer anhygoel o 390,296 o ferched ddeiseb yn galw am 'Gyfraith, nid Rhyfel' i'w chyflwyno i Arlywydd Unol Daleithiau America ar y pryd, Calvin Coolidge. Yn ôl y wasg yn Efrog Newydd ar y pryd, roedd y ddeiseb derfynol dros 7 milltir o hyd.

I nodi canmlwyddiant yr ymgyrch a'r ddeiseb, mae arddangosfa arbennig – PAX – i'w gweld yn oriel gelf (MOMA) y Tabernacl, Machynlleth. Gwahoddwyd nifer o artistiaid Cymreig cyfoes – yn arlunwyr a beirdd – i ddangos darn o'u gwaith i gynrychioli 'Heddwch', a derbyniwyd ymatebion sy'n cyfuno i greu arddangosfa amrywiol.



Hunanbortread beiddgar sydd gan Shani Rhys James ond gweithiau cynnil iawn sydd gan Elfyn Lewis – *Heddwch*, *Swnt Enlli*, a *Maddeuant*. Mae ladis Cymreig Ruth Jên yn gwneud ymddangosiad yma gan godi gwên. Ac yn ganolbwynt i'r arddangosfa yr oedd y paentiad trawiadol o gorff ar deils clai wedi'u crasu gan Meri Wells, â'r teitl *Byth Eto* yn coffáu erchylltra Hiroshima.

Mae darlun Meinir Mathias o Annie Hughes Griffiths ei hun yn arbennig o bwerus. Llwyddodd yr artist i ddal cadernid cymeriad Annie, sy'n gwisgo dillad 'benywaidd', pinc, wrth iddi afael yn y ddeiseb, wedi'i hamgylchynu gan adar papur a baner wen yn chwifio'r tu ôl iddi yn symbolau o heddwch. Eglurodd Meinir fod y merched wedi'u clywed yn canu 'O fryniau Caersalem' ar y llong draw i America, a'i bod hi wedi cynnwys rhai o eiriau'r emyn ar yr adar papur.

Mae'r arddangosfa hefyd yn cynnwys cerddi gan nifer o feirdd, yn eu mysg Mererid Hopwood, Menna Elfyn, Sara Louise Wheeler a Sian Northey. 'Nid dim ond merched parchus / mewn esgidiau call' oedd wedi llofnodi'r ddeiseb, yn ôl Sian Northey, 'ond hefyd gwrachod / a phuteiniaid / a phlant a fagwyd yn y wyrcws'. Ar ddarn hir o bapur, cynhwyswyd enwau rhai o'r gwragedd hyn, oedd yn dod o bob cwr o Gymru: Miss Jones o Ddinbych a Miss Roberts o Benrhiw-ceibr, Mrs Beynon, Blaengwynfi, a Mrs Louisa Jones, Aberystwyth. Tybed beth oedd eu hamgylchiadau nhw?

Profiad iasol i mi oedd gwrando ar Karen Owen yn adrodd ei cherdd 'Cofeb', â'r diweddglo sobreiddiol:

> Ar y meini hyn sy'n grwm o'n henwau,
> yn gynion lleddf ac yn llwch,
> y mae pob duw yn gelain
> (oni bai am dduw rhyfel)
> ac nid oes neb, neb,
> dim ond y rheini y cerfiwyd eu henwau
> yn annwyl gan ddagrau,
> wedi gweld diwedd rhyfel
> erioed.

Flwyddyn gyfan ers i'r Arlywydd Putin a'i fyddin ymosod ar Wcráin gan achosi lladdfa a dinistr erchyll, gwnaeth yr Arlywydd Zelenksy apêl daer ar i wledydd y Gorllewin ddangos eu cefnogaeth i'w wlad drwy anfon mwy o arfau i ganol y brwydro. Ond tybed ai dyna'r ateb mewn gwirionedd? Onid oes gennym ni, ferched Cymru heddiw, ran i'w chwarae i geisio newid y diwylliant rhyfelgar hwn?

Ar ôl iddynt ddarganfod hanes yr apêl, daeth grŵp bychan o ferched o Wynedd at ei gilydd yn 2016 i ffurfio mudiad Heddwch Nain / Mam-gu. Mae ganddynt dri nod: Cofio, Dathlu a Gwireddu. Eu hapêl newydd ar gyfer ein hoes ni yw sicrhau: byd heb ryfel, gwladwriaeth les i bawb, byd cynaliadwy, cyfrifoldeb dros y blaned a bywyd ar y blaned, arallgyfeirio o'r diwydiant arfau, parch a chydraddoldeb i bawb. Am ragor o fanylion, cysylltwch â: heddwchnain.mamgu@gmail.com.

Bydd yr arddangosfa – PAX – i'w gweld yn y Tabernacl, Machynlleth, yn rhad ac am ddim tan 15 Ebrill; oriau agor: dydd Mawrth hyd ddydd Gwener, 10am–4pm; dydd Sadwrn, 10am–1pm. Mae'n cynnwys cymaint o argraffiadau a delweddau cyfoethog – ac mae modd prynu rhai o'r gweithiau celf neu brintiau ohonynt. Ewch i'w gweld!

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Daeth yr aelodau ynghyd i festri Rehoboth brynhawn Mawrth, 13 Rhagfyr, pan groesawyd Mair Nutting, Tal-y-bont, i'r cyfarfod i ddangos ffilm a wnaed ganddi yn gynharach yn y flwyddyn am y diwydiant gwlân yn yr ardal. Roedd mudiad Merched y Wawr yng Ngheredigion yn bwriadu creu ffilm ar y thema 'Gwlân, Gwlân, Gwlana' er mwyn ei dangos yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Nhregaron ym mis Awst. Felly, cafodd Mair ei symbylu i ffilmio rhai o aelodau cangen Tal-y-bont a'r Cylch o Ferched y Wawr yn sôn am y gweithgarwch a fu, a hefyd sy'n dal i fodoli, yn yr ardal ynglŷn â'r diwydiant gwlân, er mwyn cyfrannu i'r ffilm. Ar ôl gweld y ffilm buom yn rhannu atgofion am y dillad a'r ffatrïoedd a fu yn Nhal-y-bont a'r ardal ers talwm, a'r cyfan yn ychwanegu at fwynhad y prynhawn. Diolchwyd yn gynnes i Mair am greu'r ffilm sy'n gofnod hanesyddol gwerth ei gofnodi am y diwydiant gwlân, ac yna mwynhawyd paned o de, mins peis a chacen Nadolig wedi eu paratoi gan Eiriona Metcalfe a Carys Briddon.

Estynnwyd croeso i John Roberts, Aberystwyth, i'r cyfarfod brynhawn Mawrth, 10 Ionawr. Bu'n sôn am y ddwy nofel a gyhoeddwyd ganddo eisoes, gan egluro'n fanwl sut mae'n mynd ati i greu'r cymeriadau ac yna sut mae'r stori'n datblygu trwy'r cymeriadau hynny. Mae ei nofel gyntaf *Gabriela* yn adrodd hanes merch o Frasil o'r enw Gabriela wrth iddi gerdded ar hyd llwybr y pererinion i Santiago de Compostela yng ngogledd Sbaen. Mae'r nofel *Yn fyw yn y cof* wedi ei lleoli yng Nghymru, a cheir ynddi hanes tair cenhedlaeth o'r un teulu a'u perthynas gyda'i gilydd. Diolchwyd yn gynnes i John Roberts am rannu ei brofiadau fel llenor, ac yna mwynhawyd paned o de a bisgedi wedi eu paratoi gan Bethan Davies a Non Griffiths.

Croesawyd Sue Youell o Landdeiniol i'r cyfarfod brynhawn Mawrth, 14 Chwefror, a thestun ei sgwrs oedd 'Gwehyddu fel hobi'. Mae Sue yn dod o Swydd Efrog yn wreiddiol, ond daeth i fyw i Gymru nifer o flynyddoedd yn ôl. Ar ôl symud i Gymru dechreuodd ddysgu Cymraeg, ac erbyn hyn mae'n medru ei siarad yn rhugl. Wedi iddi ymddeol o'r gwaith, aeth Sue ati i ddysgu gwehyddu fel hobi. Cawsom hanes y grefft ganddi ac eglurodd fod gwehyddu yn un o'r crefftau hynaf sydd yn bod. Daeth â nifer o eitemau a grëwyd ganddi i'r cyfarfod, ynghyd â dwy wŷdd a gwahanol fathau o wlân, a dangosodd sut mae'n mynd ati i greu sgarffiau a chlustogau a mat lliwgar, ymysg pethau eraill. Diolchwyd yn gynnes i Sue am brynhawn difyr iawn, ac yna mwynhawyd paned o de a bisgedi a baratowyd gan Falyri Jenkins a Mona Rowlands.

*Carys Briddon*

## Hynawsedd

**Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser; fe'i dywedaf eto, llawenhewch. Bydded eich hynawsedd yn hysbys i bob dyn. Y mae'r Arglwydd yn agos. Peidiwch â phryderu am ddim, ond ym mhob peth gwneler eich deisyfiadau yn hysbys i Dduw trwy weddi ac ymbil, ynghyd â diolchgarwch. A bydd tangnefedd Duw, sydd goruwch pob deall, yn gwarchod dros eich calonnau a'ch meddyliau yng Nghrist Iesu.**

Dyma oedd man cychwyn ein trafodaeth yn **Clonc a Phaned** fore Iau, Mawrth 2il. Fel sy'n digwydd yn aml, mynnodd un gair ein sylw yn fwy na'r lleill – hynawsedd oedd hwnnw. Roeddwn i'n tybio fy mod yn gwybod ei ystyr: bod yn neis wrth ein gilydd, mewn iaith bob dydd, ond gwell edrych yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru i wneud yn siŵr. Roedd rhestr o gyfystyron posibl yno: caredigrwydd, rhadlondeb, tynerwch, llarieidd-dra, gwarder, tiriondeb, natur dda, hawddgarwch, dynoldeb, boneddigeiddrwydd, cwrteisi, moesgarwch, amynedd

Beth am gyfieithiadau i ieithoedd eraill? *Modestia* (cymedroldeb) sydd yn y fersiwn Lladin o'r Beibl sydd gen i; *bienveillance* (caredigrwydd) sydd mewn hen Feibl Ffrangeg a *douceur* (tynerwch) mewn un Ffrangeg diweddarach; *magnanimity* (haelioni) sydd yn y New English Bible, *moderation* (cymedroldeb) yn yr Holy Bible. "Gadewch i bawb weld eich bod yn bobl garedig," sydd yn beibl.net.

Mae'n amlwg felly bod sawl cyfieithad posibl, ond yr un ystyr yn fras sydd iddyn nhw i gyd. Pa air o blith y rhestr roedd William Morgan wedi ei ddewis, tybed?

Er syndod, ***arafwch*** sydd ganddo fe. Yn ôl eto at Eiriadur Prifysgol Cymru, a chael mai'r ystyr cyntaf sy'n cael ei gynnig i **arafwch** yno yw: mwynder, tynerwch, tiriondeb, llarieidd-dra, cymedroldeb. I brofi'r ystyr yma rhoir mwy nag un dyfyniad, gan gynnwys hwn o Hanes Gruffudd ap Cynan: "A gwedy hynny y gwladychws Gruffudd – gan **arafwch a heddwch**."

O hyn ymlaen felly, wrth roi fy nhroed ar frêc y car i ufuddhau i'r gair ARAF ar y ffordd neu ar arwydd ar ochr y ffordd, byddaf yn cael y pleser o ddychmygu fy mod i hefyd yn bod yn garedig, yn hynaws, yn llariaidd, yn hael, yn gymedrol ...

Oni fyddai'n braf pe bai'n byd ni i gyd yn arafu?

*Llinos Dafis*

## *Geiriadur y Gair*, gol. D. Geraint Lewis




Geiriadur Beiblaidd unigryw, wedi ei greu gan y geiriadurwr profiadol D. Geraint Lewis yw hwn. Mae'n rhoi diffiniadau o eiriau yn y Beibl, nid mewn geiriau esboniadol, ond gydag adnodau o'r Beibl, sy'n gymorth i ni ddeall yr ystyr a'r cyd-destun. Cawn wybodaeth am darddiad teitlau rhai cyfrolau enwog yn y Gymraeg, fel *Dail Pren* Waldo Williams o Lyfr y Datguddiad: "Ar ddwy lan yr afon yr oedd pren bywyd, ac yr oedd dail y pren er iachad y cenhedloedd'. Hefyd, *O Tyn y Gorchudd* Angharad Price o Lyfr Exodus: "Pan ddaeth Moses i lawr o Fynydd Sinai gyda dwy lech y dystiolaeth, ni wyddai fod croen ei wyneb yn disgleirio ar ôl iddo siarad â Duw. Pan fyddai'n mynd o flaen yr Arglwydd i siarad ag ef byddai'n tynnu'r gorchudd nes iddo ddod allan". …

Ar adegau byddwn yn sôn am gefndir person drwy ddweud iddo fod yn ffyddlon i'w wreiddiau neu i'r graig y'i naddwyd ohoni. Dyma'r adnod gyntaf o Eseia 51: "Edrychwch ar y graig y'ch naddwyd ohoni ac ar y chwarel lle'ch cloddiwyd." Gwelwn enghreifftiau addas hefyd sy'n berthasol iawn i'r dyddiau dreng yma … Daw'r adnod o lythyr cyntaf Timotheus, pennod 6 ac adnod 10: "Gwraidd pob math o ddrwg yw cariad at arian." Daw ambell ddyfyniad â gwên i'r wyneb ac mae toreth ohonynt yn Llyfr y Diarhebion. Beth am hon? "Fel modrwy aur yn nhrwyn hwch, felly mae gwraig brydferth heb synnwyr. … Rhai o'm hoff ddywediadau sy'n siarad cyfrolau yw: "Mae enw da yn well na chyfoeth mawr, a charedigrwydd yn well nag arian ac aur." Anogaf unrhyw un i brynu'r gyfrol werthfawr a defnyddiol hon.

Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair, 2022; pris £9.99.

*Detholiad o adolygiad gan Beti Griffiths oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru*

**Swyddogion yr Ofalaeth**

Cadeirydd: Alwyn Hughes, Madog

Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **11 Mehefin** i'r golygydd:
Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com